

Cerbyd swyddogol y Llywydd



20 Chwefror 2014

Cais am Wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

- 1. Rhowch fanylion am y car a ddarperir at ddefnydd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ar gyfer busnes swyddogol, gan gynnwys gwneuthuriad a model.*
- 2. Os cafodd y car ei brynu, beth oedd y gost, pryd cafodd ei brynu a chan ba gwmni? Os cafodd ei logi ar gontract, yn hytrach na chael ei brynu, rhowch fanylion am gostau blynyddol y contract.*
- 3. Rhowch fanylion am gostau rhedeg blynyddol y car ynghyd ag unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â'r car fel cyflog gyrrwr. Faint o filltiroedd y mae'r car wedi'u gyrru ers iddo gael ei gaffael?*
- 4. Beth oedd y rheswm dros brynu car newydd?*
- 5. A yw'r car yn cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unig? Os na, beth yw'r trefniadau ar gyfer ei ddefnyddio?*
- 6. Beth oedd gwneuthuriad a model y car blaenorol a ddarparwyd ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd? Pryd cafodd y car hwnnw ei gaffael, a beth oedd y gost (neu bris y contract blynyddol)? Pryd cafodd ei waredu, a beth oedd y gost?*

Byddaf yn ateb pob cwestiwn yn ei dro isod.

- 1. Rhowch fanylion am y car a ddarperir at ddefnydd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ar gyfer busnes swyddogol, gan gynnwys gwneuthuriad a model.*

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei rhyddhau mewn cais rhyddid gwybodaeth blaenorol. Gallwch weld y cais blaenorol drwy glicio [yma](#).

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635

E-bost / Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

2. Os cafodd y car ei brynu, beth oedd y gost, pryd cafodd ei brynu a chan ba gwmni? Os cafodd ei logi ar gontract, yn hytrach na chael ei brynu, rhowch fanylion am gostau blynyddol y contract.

Mae cerbyd swyddogol y Llywydd yn cael ei brydlesu o Audi Caerdydd. Mae'r tabl isod yn nodi costau blynyddol y brydles ar gyfer y cerbyd ers mis Ebrill 2011. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw a threth cerbyd.

Blwyddyn ariannol	Cyfanswm y costau
2011 - 2012	£7889.64
2012 - 2013	£8680.74
Ebrill 2013 - Ionawr 2014 yn gynhwysol	£5919.90

3. Rhowch fanylion am gostau rhedeg blynyddol y car ynghyd ag unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â'r car fel cyflog gyrrwr. Faint o filltiroedd y mae'r car wedi'u gyrru ers iddo gael ei gaffael?

Mae'r costau rhedeg blynyddol yn cael eu nodi yng nghwestiwn 2.

Mae'r costau yswiriant a'r costau tanwydd wedi cael eu rhyddhau mewn cais blaenorol, ac eithrio'r diweddariad isod. Gallwch weld y cais blaenorol drwy glicio [yma](#).

Blwyddyn ariannol	Cost tanwydd
Ebrill 2013 - hyd at 14 Chwefror, 2014	£2,343.94

Mae'r wybodaeth am gyflog y gyrrwr wedi cael ei rhyddhau mewn ateb i gais blaenorol. Gellir ei weld drwy glicio [yma](#).

Mae'r tabl isod yn nodi milltiroedd blynyddol cerbyd swyddogol y Llywydd ers mis Ebrill 2011.

Blwyddyn ariannol	Cyfanswm y milltiroedd a deithiwyd
2011 - 2012	14,848
2012 - 2013	15,430
2013 - hyd at 14 Chwefror, 2014	11,684

4. Beth oedd y rheswm dros brynu car newydd?

Fel y nodwyd yng nghwestiwn 2, mae'r cerbyd swyddogol yn cael ei brydlesu ac ni chafodd ei brynu. Cafwyd car newydd pan ddaeth y brydles tair blynedd ar y car blaenorol i ben ym mis Hydref 2012.

Rydym wedi penderfynu bod prydlesu cerbyd yn cynrychioli gwell gwerth am arian, yn gyffredinol, na phrynu cerbyd.

5. A yw'r car yn cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unig? Os na, beth yw'r trefniadau ar gyfer ei ddefnyddio?

Mae'r defnydd o'r cerbyd swyddogol yn cael ei reoli gan ganllawiau mewnol ar deithio swyddogol ar gyfer y Llywyddion. Mae'r rhannau o'r canllawiau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r cerbyd swyddogol i'w gweld isod:

Busnes swyddogol

Mae "busnes swyddogol" yn golygu unrhyw un o'r dyletswyddau neu ymrwymadau sy'n gysylltiedig â swydd y Llywydd / Dirprwy Lywydd a/neu Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o fusnes nad yw'n fusnes swyddogol:

- unrhyw faterion yn ymwneud â rôl y deiliad swydd fel aelod etholedig y Cynulliad (h.y. mewn cysylltiad â'u hetholaeth neu ranbarth etholiadol);
- unrhyw fater sy'n ymwneud â phlaid wleidyddol deiliad y swydd, neu unrhyw gyrff sy'n gysylltiedig yn agos â'r blaid (fel undebau llafur cysylltiedig);
- materion preifat a theuluol, gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol answyddogol.

Teithiau i'r cartref ac yn ôl

Er mwyn adlewyrchu statws y swyddi, mae gan y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yr hawl i deithio swyddogol rhwng eu cartref a'r swyddfa, neu eu cartref a lleoliad digwyddiad. Bydd hyn yn cael ei ddarparu gan y car swyddogol, cerbyd dan gontract, car personol deiliad y swydd (ad-delir y gost o dan y rheolau teithio a chynhaliadau arferol) neu ffurfiau eraill o drafnidiaeth fel y'i disgrifir yn y canllaw hwn.

Teithio mewn Car Swyddogol

Bod yn gymwys

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu car (ceir) swyddogol a gyrrwr (gyrwr) swyddogol at ddibenion y Llywydd / y Dirprwy Lywydd, Comisiynwyr y Cynulliad a rhai uwch swyddogion, i'w ddefnyddio ar fusnes swyddogol.

Mae gan y bobl ganlynol yr hawl i ddefnyddio'r car swyddogol pan fyddant ar fusnes swyddogol, bob amser. Rhoddir yr hawl yn drefn a ddangosir, ac yn amodol ar argaeledd y car swyddogol:

- Y Llywydd
- Y Dirprwy Lywydd
- Comisiynwyr y Cynulliad
- Y Prif Weithredwr a Chlerc
- Cyfarwyddwyr y Cynulliad Cenedlaethol

Hefyd, mewn amgylchiadau eithriadol, gellir darparu ceir swyddogol ar gyfer ffigyrau cyhoeddus eraill pan fyddant yn ymweld â'r Cynulliad neu'n cyflawni swyddogaethau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Llywyddion. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig yn ôl disgrisiwn y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau, ac mae'n amodol ar gapasiti.

Swyddogion ac eraill sy'n teithio gyda'r Llywydd / Dirprwy Lywydd neu Gomisiynwyr y Cynulliad

Mae gan swyddogion (fel cynorthwy-ydd neu arweinydd polisi) neu Aelod Cynulliad sy'n teithio gyda'r Llywydd / Dirprwy Lywydd yr hawl i deithio yn yr un car swyddogol, os bydd y Llywydd / Dirprwy yn cytuno. Yn ogystal, gellir casglu swyddogion o'r fath o'u cartref a'u gollwng yno cyn neu ar ôl digwyddiad, ar yr amod bod yr amser a'r pellter ychwanegol dan sylw yn fach iawn, neu os yw'n gynnar iawn yn y bore neu'n hwyr iawn yn y nos. Nid oes gan swyddogion (ar wahân i'r Prif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwyr) yr hawl i ddefnyddio'r car swyddogol mewn unrhyw amgylchiadau eraill.

Gall unigolion eraill, fel priod neu bartner, ddefnyddio'r car swyddogol, dim ond os ydynt yn teithio gyda'r Llywydd / Dirprwy ar fusnes swyddogol (er enghraifft, cinio swyddogol lle mae'r priod neu bartner wedi cael gwahoddiad). Mewn achosion o'r fath, ni ellir eu codi neu eu

gollwng ar wahân i'r Llywydd / Dirprwy, oni bai bod yr amser a'r pellter ychwanegol dan sylw yn fach iawn.

Cludo papurau swyddogol

Lle nad oes systemau TG neu ddewisiadau cost-ffeithiol eraill ar gael, gellir defnyddio'r car swyddogol i gludo papurau swyddogol i gartref deiliad swydd neu leoliad arall (fel swyddfa etholaethol) lle mae'r deiliad swydd yn bresennol, heb y deiliad swydd i'w hebrwng. Ni ddylid ei ddefnyddio i gludo deunydd swyddogol neu offer arall, neu ddeunyddiau yn ymwneud ag etholaeth neu blaid wleidyddol.

Defnyddio Ceir at Ddibenion Answyddogol

Ni ddylid defnyddio ceir swyddogol at unrhyw ddibenion answyddogol eraill. Yn achos y gyrrwr, mae hyn yn cynnwys unrhyw ddefnydd o'r car yn ystod y diwrnod gwaith nad yw'n cael ei ystyried yn swyddogol gan Bennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau. Mae defnydd swyddogol a gymeradwywyd yn cynnwys: teithio yn uniongyrchol i orsaf betrol i ail-lenwi'r car; teithio i fan golchi ceir i lanhau'r car; neu deithio i fodurdy ar gyfer ymgymryd â gwaith gwasanaethu neu waith cynnal a chadw arall. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd arall, oni bai bod y gyrrwr yn cael caniatâd ymlaen llaw gan Bennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau.

Mae gan yrwyr yr hawl i ddefnyddio'r car swyddogol ar gyfer teithiau rhwng: y swyddfa a'u cartref; y lleoliad lle maent wedi gollwng y deiliad swydd neu ei gynorthwy-ydd ar ddiwedd taith swyddogol a'u cartref; neu eu cartref a'r man lle maent yn casglu'r deiliad swydd neu ei gynorthwy-ydd i ddechrau taith swyddogol. Caniateir y teithiau hyn gan eu bod yn hwyluso busnes swyddogol effeithlon. Felly, rhaid i'r teithiau hyn fod yn rhai uniongyrchol ac ni ddylent gynnwys y defnydd o geir ar gyfer unrhyw fusnes answyddogol.

Rhaid i yrwyr sy'n mynd â char swyddogol i'w cartref roi'r cyfeiriad i'r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau at ddibenion yswiriant. Pan fydd car yn cael ei gymryd i gartref gyrrwr, rhaid iddo gael ei barcio yn ddiogel ar unwaith ac ni ddylid ei ddefnyddio eto nes bod y gyrrwr yn dychwelyd i'r swyddfa neu'n teithio i fan lle mae'n casglu deiliad swydd (neu ei g/chynorthwy-ydd). Rhaid i'r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau gytuno bod y lle parcio yn ddiogel. Ni fydd cytundeb o'r fath yn cael ei roi i barcio ar y stryd.

Ar ddiwrnodau pan nad yw'r cerbyd swyddogol yn cael ei ddefnyddio, rhaid ei barcio'n ddiogel yng nghartref y gyrrwr neu yn y Cynulliad Cenedlaethol.

6. Beth oedd gwneuthuriad a model y car blaenorol a ddarparwyd ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd? Pryd cafodd y car hwnnw ei brynu, a beth oedd y gost (neu bris y contract blynyddol)? Pryd cafodd ei waredu, a beth oedd y gost?

Gwneuthuriad a model y car blaenorol oedd Audi A8 hefyd. Cafodd ei gaffael ym mis Hydref 2009. Cost prydles flynyddol y cerbyd blaenorol oedd £9,467 ac fe'i dychwelwyd i'r cwmni ym mis Hydref 2012 pan ddaeth y brydles i ben.

Byddwch yn nodi ein bod wedi sicrhau gwell gwerth am arian gyda'r brydles bresennol. Mae hyn yn un o fanteision ceisio cystadleuaeth y farchnad ar ddiwedd pob prydles.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

Buddug Saer
Swyddog Rhaglenni
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF